

CYFARFOD:	<b>BWRDD PENSIWN</b>
DYDDIAD:	<b>23 TACHWEDD 2020</b>
TEITL:	<b>DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU</b>
AWDUR:	<b>DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI</b>

---

## **1. Cyflwyniad**

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 gyda swyddogion yn cwrdd yn aml.

Ers y cyfnod clo, mae holl ddigwyddiadau'r bartnerieth wedi bod yn rhithiol ond mae'r gwaith wedi mynd o nerth i nerth, gyda cronfeydd newydd wedi ei lawnsio, a nifer o ddigwyddiadau wedi cymeryd lle.

## **2. Cronfeydd Incwm Sefydlog**

Yn ystod Gorffennaf a Hydref 2020 creuwyd pump cronfa Incwm Sefydlog gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, a mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt:

- **Cronfa Multi Asset Credit**

Trosglwyddwyd ein buddsoddiad gyda Fidelity Global Equity ar 27ain Gorffennaf 2020. Buddsoddwyd swm o £166,119,549.08 yn y Multi Asset Credit Fund.


- **Cronfa Absolute Return Bond**

Y bwriad gwreiddiol oedd lawnsio y Gronfa yma yng Ngorffennaf 2020. Yn anffodus darganfuwyd nad oedd buddsoddiadau presennol yn gymwys i'r strwythur ACS, ac felly creuwyd cronfa arall gyda dyddiad lawnsio o 1af Hydref 2020.

Mae'r trosglwyddiad wedi digwydd ac mae ein buddsoddiad gyda Insight o £291,238,172.22 wedi ei drosglwyddo yn llwyddiannus ar Hydref 1af i'r Absolute Return Bond Fund.


### 3. Perfformiad

#### Cronfa Global Growth



Cyn y pandemig, mae perfformiad y gronfa hon wedi bod yn uwch na'r meincnod gyda pherfformiad cryf gan Baillie Gifford a Veritas. Mae gan y portfolio fuddsoddiadau 'gwerth dwfn', ac oherwydd effaith y pandemig, mae'r perfformiad yn ddiweddar wedi disgyn y tu ôl i'r meincnod. Mae'r sectorau traddodiadol megis olew ac arian wedi perfformio'n wael ac mae sectorau megis technoleg wedi perfformio'n gymharol dda. Mae Russell Investments yn monitro dyraniad y gronfa yma yn barhaus.

#### Cronfa Global Opportunities



Mae perfformiad yn gyffredinol yn uwch na'r meincnod ers ei sefydlu gyda pherfformiad cryf gan Morgan Stanley, Sanders Capital a SW Mitchel yn benodol. Yn ddiweddar, mae'r gronfa yma hefyd wedi dioddef effaith y pandemig. Mae Numeric a NWQ wedi perfformio yn wael, ond mae gan y portfolio rheolwyr gyda steiliau a cylchoedd bywyd gwahanol e.e. value v's growth, ac felly gall eu perfformiad newid yn y dyfodol.

## 4. Datblygiadau

### 4.1 Marchnadoedd Datblygol

Y trosglwyddiad nesaf a fydd yn digwydd yw Marchnadoedd Datblygol- yn y Pwylgor Pensiynau ar 14 Hydref cytunwyd ar y strwythur rheolwyr buddsoddi arfaethedig i'r cronfa newydd yma.

Bydd cronfa Gwynedd yn symud ein cyfran Marchnadoedd Datblygol o gwmni Fidelity i'r gronfa yma a disgwylir i'r gronfa lawnsio yng Ngwanwyn 2021.

### 4.2 Marchnadoedd Preifat

Mae grwp wedi ei sefydlu yn edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori yma, gyda'r cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr. Mae Russell Investments wedi bod yn edrych ar yr opsiynau sydd ar gael gyda'r portffolio cyfredol, a datblygu a cronfeydd newydd i'r dyfodol.

Mae scôp marchnadoedd preifat yn eang ac felly mae dipyn o waith dadansoddi angen ei gwblhau.

### 4.3 Adroddiad Blynyddol

Mae gan PPC nifer o gyhoeddiadau ar ei wefan, ac yn ddiweddar mae'r Adroddiad Blynyddol wedi ei gyhoeddi. Gweler y wefan am wybodaeth pellach: [www.partneriaethpensiwyncymru.org](http://www.partneriaethpensiwyncymru.org)

### 4.4 Diweddariadau a Hyfforddiant

Ers y cyfnod clo, mae holl ddigwyddiadau'r bartneriaeth wedi bod yn rhithiol ac felly mae diweddariadau a hyfforddiant rheolaidd wedi bod ar gael i aelodau'r Bwrdd Pensiwn.

### 4.5 Cynrychiolaeth o'r Byrddau Pensiwn ar Gyd- bwyllgor y Bartneriaeth

Mae'r pwnc yma yn destun trafod ers peth amser bellach. Mae'r Pennaeth Cyllid wedi mynychu cyfarfod ynglŷn yn ddiweddar ac am rhoi diweddariad ar lafar.

## 5. Arghymelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.